

Producing bilingual material and arranging simultaneous translation equipment at meetings and conferences is an effective way of strengthening your organisation's bilingual image and appeal. There are a number of experienced, competent translators in Wales who will be able to produce work of the highest standards. Some translation agencies offer reduced rates for voluntary and community groups.

Simultaneous Translation

Simultaneous translation and written translation are two very different skills, and not all translators will offer both services.

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru (The Association of Welsh Translators and Interpreters)

The Association of Welsh Translators and Interpreters have a list of members on their website www.cyfieithwycymru.org.uk arranged according to the members' geographical location and specialist areas. Some of these translators are self employed and others work for translation companies and agencies. There are two levels of membership, which denote the translator's level of experience with basic membership enabling an individual to translate under supervision, and full membership indicating that a translator is qualified to translate independently without supervision. The Association's directory identifies which members offer a simultaneous translation service.

Mentrau Iaith (Language Initiatives)

A number of the Mentrau iaith employ translators who offer a written translation service, and some also offer a simultaneous translation service. Some of the Mentrau iaith will lend the translation equipment to organisations and will put you in touch with a suitable translator, while others train community translators for local meetings and committees. Contact your local Menter iaith to find out what provision exists in your area, and for general information regarding finding a translator by visiting: www.mentrauiath.com

Link Line to Welsh

If you have short items of work that need translating or proofreading, the Welsh Language Board offer a free service on 0845 607 6070 or cyswllt@bwrdd-yr-iaith.org.uk for translations up to 30 words long or for proofreading up to 75 words. The link line is open during office hours from Monday to Friday.

Things to Consider

- Ensure adequate time within your administrative timetable for translation and proofreading to take place. Don't allow translation to become a last minute rush. Staff and volunteers should be made aware of this.
- Nominate an individual to liaise between your organisation and the translator or agency. This could be useful in ensuring that the translator has the necessary background knowledge and context regarding the work to be translated, and in order to ensure the consistency of any specialised terms used by your organisation.
- Agree upon terms, and upon a completion date when work needs to be returned, and remember to ask the translator whether or not the rates include editing and correcting proofs. It's much easier and a lot cheaper to correct 'typos' that have appeared between the translation and design stages **before** going to print.
- Never entrust the work to a so called online, automated translation service. There are numerous examples of basic errors and regular mistakes occurring with these services.
- By asking a professional, accredited translator to do the work on your behalf you are displaying your organisation's commitment to ensuring an end product of the highest standard and quality in both English and Welsh.

For further information regarding working with translators, contact Estyn Llaw:

e-mail: ymhol@estynllaw.org

Telephone: (0800) 9177 969 / (01239) 711668

Website : www.estynllaw.org

Mae cynhyrchu deunydd dwyieithog, a threfnu offer 'cyfieithu ar y pryd' mewn cyfarfodydd a chynadledau yn ffordd dda o gryfhau delwedd ddwyieithog ac apêl eich mudiad. Mae nifer o gyfieithwyr profiadol a chymwys ar gael yng Nghymru all sicrhau gwaith graenus a safonol, a rhai asiantaethau sy'n cynnig cyfraddau gostyngol i fudiadau gwirfoddol a chymunedol.

Cyfieithu ar y Pryd

Cofiwch fod cyfieithu ar lafar yn sgil gwahanol iawn i gyfieithu ar bapur, ac ni fydd pob cyfieithydd yn cynnig y ddau wasanaeth.

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Mae gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru restr o aelodau ar eu gwefan www.cyfieithwycymru.org.uk wedi ei drefnu yn ôl lleoliad daearyddol yr aelodau ac yn ôl arbenigedd. Mae rhai o'r cyfieithwyr yn gweithio ar liwt eu hunain, ac eraill yn gweithio i gwmnïau cyfieithu. Mae graddfeydd aelodaeth y Gymdeithas yn dynodi lefel profiad y cyfieithydd, gydag aelodaeth sylfaenol yn caniatáu i rywun gyfieithu o dan oruchwyliaeth ac aelodaeth gyflawn yn nodi bod cyfieithydd yn gymwys i weithio heb oruchwyliaeth. Mae cyfeirlyfr y Gymdeithas yn nodi pa aelodau sy'n cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Mentrau Iaith

Mae nifer o Fentrau Iaith Cymru yn cyflogi cyfieithwyr sy'n cynnig gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig, ac mae rhai ohonynt hefyd yn cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Mae ambell un o'r Mentrau yn rhoi benthyg offer cyfieithu ar y pryd ac yn gallu eich rhoi mewn cysylltiad gyda chyfieithydd addas, tra bod eraill yn hyfforddi cyfieithwyr cymunedol ar gyfer pwyllgorau a chyfarfodydd lleol. Cysylltwch â'ch Menter Iaith leol am wybodaeth ynglŷn â'r ddarpariaeth yn eich ardal chi, ac am gyngor yn gyffredinol ynglŷn â dod o hyd i gyfieithydd, drwy ymweld â: www.mentrauiath.com

Llinell Gyswllt â'r Gymraeg

Os oes gennych ddarnau byr o waith sydd angen eu cyfieithu neu eu golygu, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cynnig gwasanaeth sydd yn rhad ac am ddim. Cysylltwch â'r llinell gyswllt ar 0845 607 6070 neu e-bostio cyswllt@bwrdd-yr-iaith.org.uk er mwyn cyfieithu hyd at 30 o eiriau a golygu hyd at 75 o eiriau. Mae'r llinell gyswllt ar agor yn ystod oriau swyddfa arferol o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Pethau i'w Hystyried

- Cofiwch sicrhau bod amser yn cael ei ganiatáu o fewn yr amserlen weinyddol ar gyfer cyfieithu a phrawf ddarllen. Peidiwch gadael i'r elfen gyfieithu fynd yn rhuthr funud olaf. Gwnewch yn siŵr bod eich staff a'ch gwirfoddolwyr yn ymwybodol o hyn
- Penodwch un person i weithredu fel dolen gyswllt rhwng eich mudiad a'r cyfieithydd/asiantaeth gyfieithu. Gall hyn fod yn gymorth er mwyn i'r cyfieithydd gael gwybodaeth gefndir a chyd-destun am y gwaith i'w gyfieithu, ac er mwyn cysoni a safoni unrhyw dermau arbenigol a ddefnyddir
- Cytunwch ar delerau a dyddiad i'r gwaith gael ei ddychwelyd a chofiwch ofyn i'r cyfieithydd os ydy'r cyfraddau yn cynnwys prawf ddarllen a chywiro proflenni. Mae'n dipyn haws ac yn llawer iawn rhatach cywiro mân wallau sydd wedi digwydd rhwng y prosesau cyfieithu a dylunio **cyn** cynhyrchu'r deunydd gorffenedig
- Peidiwch byth ag ymddiried y gwaith i wasanaethau cyfieithu 'awtomatig' ar-lein honedig. Mae enghreifftiau di-ri o gamgymeriadau sylfaenol a gwallau cyson yn digwydd
- Trwy ofyn i gyfieithydd profiadol a chydabyddedig wneud y gwaith ar eich rhan rydych yn dangos ymrwymiad eich mudiad i sicrhau cynnyrch safonol a chywir yn y ddwy iaith.

Am gyngor pellach ynglŷn â threfnu a chynnal cyfarfodydd dwyieithog cysylltwch ag Estyn Llaw:

e-bost: yhol@estynllaw.org

Ffôn: (0800) 9177 969 / (01239) 711668

Gwefan: www.estynllaw.org